Cynllun Gweithredu Stelcio'r Heddlu (Diweddariadau Mawrth 2026): mewn ymateb i'r uwch-gŵyn a gyflwynwyd gan Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh ar ran y Consortiwm Stelcio Cenedlaethol

Yr heddlu:	**Heddlu Dyfed-Powys**
Arweinydd goruchwyliol:	**Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Ross Evans**
Arweinydd gweithredol:	**Ditectif Brif Arolygydd Dros Dro Katie Cuthbertson**

Rhif yr argymhelliad	Argymhelliad:		Gofynion tystiolaeth o ran cynnydd/cwblhau:	Perchennog yr argymhelliad:	Ymateb cychwynnol i'r cynllun gweithredu:	Diweddariad mis Mawrth 2026:	Dyddiad	Statws	Dogfennau ategol:
7	**Erbyn 27 Mawrth 2025, lle bo angen, ceisio newidiadau i'w systemau cofnodi troseddau i alluogi staff a swyddogion i ddogfennu a chwilio am droseddau nad ydynt wedi'u cofnodi fel y brif drosedd, ond wedi'u cynnwys yn y cofnodion troseddau.**	**7.1**	Dylid rhoi prosesau ar waith i sicrhau bod swyddogion a staff yn defnyddio gallu'r system hon yn effeithiol.	Prif Gwnstabliaid	Mae Cofrestrydd Troseddau a Digwyddiadau (FCIR) Heddlu Dyfed-Powys mewn cysylltiad â swyddogion FCIR eraill o fewn Cydweithrediad Arfordir y Gorllewin ar gyfer NICHE i drafod ac ystyried opsiynau i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn. Fel heddlu sy'n defnyddio system NICHE, rhaid datblygu'r datrysiad hirdymor ar lefel Niche yn genedlaethol, ond, cydnabyddir y bydd y newid hwn yn cymryd cryn dipyn o amser a bydd angen datrysiad dros dro.	Mae Niche wedi'i ddiwygio'n genedlaethol a gellir cofnodi hyn nawr	26 Mehefin 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	

		7.2	Er bod unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r system yn yr arfaeth, dylai prif gwnstabliaid roi mesurau amgen ar waith i sicrhau bod stelcio a throseddau cysylltiedig yn gwbl chwiliadwy. Gallai hyn, er enghraifft, olygu cyflwyno adroddiadau cudd-wybodaeth	Prif Gwnstabliaid	Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi dylunio templed ymchwiliad newydd y dylai swyddogion ei gymhwyso i bob trosedd. Mae'r templed hwn yn cynnwys cwestiwn gorfodol lle mae'r swyddog yn cadarnhau a yw'r ymchwiliad yn cynnwys trosedd neu ymddygiad stelcio. Dylid rhoi'r templed hwn ar waith erbyn Ionawr 2025. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cydnabod, er mwyn gallu chwilio am droseddau nad ydynt wedi'u cofnodi fel prif drosedd o fewn NICHE, bod angen gwneud rhai newidiadau sylweddol i'r broses. Ystyrir cofnodi digwyddiadau nad ydynt yn droseddau, ond bydd goblygiadau i wneud hyn y mae angen eu deall yn llawn. Bydd gweithgor yn cael ei sefydlu i reoli'r newid hwn o dan y bwrdd llywodraethu bregusrwydd strategol.	Mae Niche wedi'i ddiwygio'n genedlaethol a gellir cofnodi hyn nawr	26 Mehefin 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	
10	**Erbyn 27 Mawrth 2025, adolygu a diweddaru eu darpariaeth dysgu a hyfforddi sy'n ymwneud â stelcio.** **Dylai prif gwnstabliaid hefyd sicrhau bod eu polisïau a'u harferion yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn unol â'r canfyddiadau yn**	**10.1**	Yn bodloni'r canlyniadau dysgu ar stelcio o fewn cwricwlwm plismona cenedlaethol diogelu'r cyhoedd	Prif Gwnstabliaid	Bydd adran Dysgu a Datblygu Heddlu Dyfed-Powys yn adolygu ac yn adnewyddu'r cwricwlwm hyfforddi ynghylch stelcio a ddarperir fel rhan o'r cwricwlwm plismona cenedlaethol i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r uwch-gŵyn	Mae Dysgu a Datblygu wedi cadarnhau bod yr hyfforddiant a ddarperir i swyddogion wedi'i adolygu a'i fod yn bodloni'r cwricwlwm plismona cenedlaethol.	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	
		10.2	Yn gwneud defnydd priodol o'r cynnyrch e-ddysgu stelcio neu aflonyddu a ddatblygwyd gan y Coleg Plismona.	Prif Gwnstabliaid	Bydd y pecyn e-ddysgu a ryddhawyd gan y Coleg Plismona ar 5 Medi yn orfodol i swyddogion. Bydd hyn yn rhan o'r pecyn hyfforddi ar gyfer yr offeryn sgrinio stelcio a fydd yn cael ei gyflwyno i bob swyddog rheng flaen rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2025.	Mae'r pecyn N-CALT yn orfodol ar gyfer pob swyddog rheng flaen fel rhagofyniad ar gyfer amserlen hyfforddi mis Ionawr i fis Ebrill 2025.	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	

	adroddiad ymchwiliad yr uwch-gŵyn.	**10.3**	Yn defnyddio sgiliau a gwybodaeth eiriolwyr dioddefwyr lleol neu unigolion eraill o'r tu allan i blismona sydd ag arbenigedd perthnasol.	Prif Gwnstabliaid	Mae Heddlu Dyfed-Powys yn gweithio gyda Paladin mewn prosiect newydd i gefnogi dioddefwyr stelcio. Bydd Eiriolwyr Achos Stelcio Annibynnol yn darparu cymorth uniongyrchol i ddioddefwyr ond byddant hefyd yn darparu hyfforddiant i swyddogion heddlu a gweithwyr proffesiynol. https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/newyddion/prosiect-peilot-newydd-i-gefnogi-dioddefwyr-stelcio-perygl-uwch-wedi-i-lansio-yn-nyfed-powys/	Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi penodi model Hyfforddi Eiriolwyr Stelcio tair blynedd gan Paladin (gwasanaeth eiriolaeth dioddefwyr a gomisiynwyd yn Heddlu Dyfed-Powys ar hyn o bryd). Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi creu a chyhoeddi Pecyn Gwybodaeth i Ddioddefwyr, wedi'i deilwra ar gyfer dioddefwyr stelcio. Datblygwyd hwn gan ddefnyddio cynnyrch model gweithredu cenedlaethol Ymgyrch Soteria fel templed. Cyn ei gyhoeddi, ymgynghorodd Heddlu Dyfed-Powys â'n panel goroeswyr rhanbarthol a Paladin i ganfod barn, gan ddefnyddio adborth allweddol gan y panel i wneud newidiadau pwysig. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymgysylltu â goroeswyr sydd wedi rhannu eu straeon personol, a gwnaeth rhai ddarparu cyfweliadau wedi'u recordio am natur stelcio a'i effaith. Yn ogystal, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cynnal digwyddiadau gwelliant parhaus a chynadleddau datblygiad proffesiynol parhaus yn ymwneud â stelcio, gan ddefnyddio straeon goroeswyr i ddangos pwysigrwydd taith y dioddefwr. Mae profiad bywyd yn rhan o gyfathrebu a hyfforddiant allweddol.	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	

		10.4	Yn cynnwys gwybodaeth am bolisïau ac arferion lleol perthnasol lle bo angen	Prif Gwnstabliaid	Adolygwyd Polisi Stelcio Heddlu Dyfed-Powys yn ddiweddar cyn cyhoeddi'r uwch-gŵyn. Bydd hyn yn cael ei adolygu eto cyn yr adolygiad blynyddol er mwyn adlewyrchu canfyddiadau'r uwch-gŵyn.	Mae ein polisi stelcio bellach wedi'i adolygu a'i ddiweddaru i adlewyrchu canfyddiadau'r uwch-gŵyn.	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	
		10.5	Darparu i'r swyddogion a'r staff a fydd yn elwa fwyaf ar y dysgu.	Prif Gwnstabliaid	Bydd pob aelod o staff rheng flaen yn cael hyfforddiant ynghylch stelcio rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2025. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi creu eiriolwyr stelcio ac wedi darparu sesiynau datblygiad proffesiynol parhaus bob chwe mis yn ystod 2024. Bydd ein cydlynydd hyfforddiant bregusrwydd yn sicrhau y bydd dysgu o'r uwch-gŵyn a chanllawiau/gweithdrefnau newydd yn rhan o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus yn y dyfodol.	Rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2025 — roedd holl staff rheng flaen (gan gynnwys swyddogion Adran Ymchwilio i Droseddau) wedi cael hyfforddiant ynghylch stelcio (a oedd yn cynnwys yr offeryn sgrinio stelcio newydd). Roedd yr hyfforddiant hwn yn cynnwys profiad bywyd gan deulu dioddefwr. Roedd yr adborth gan gyfranogwyr wedi bod yn hynod gadarnhaol ac effeithiol a'r gred yw ei fod wedi gwella eu dealltwriaeth o risg a'r gofynion o fewn ymchwiliadau stelcio. Mae Paladin wedi cael eu comisiynu i gefnogi'r heddlu drwy ddarparu rhaglen hyfforddi tair blynedd i sefydlu 20 o eiriolwyr stelcio ar draws yr heddlu. Rydym bellach yn gadarn yn yr ail flwyddyn o'r model eiriolwyr.	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	

11	**Erbyn 27 Mawrth 2025, sicrhau bod mecanweithiau priodol ar waith i ddeall yn llawn hyd a lled ymddygiad stelcio a mathau o stelcio o fewn eu heddlu ac effeithiolrwydd eu hymateb. Dylai hyn gyd-fynd â fframwaith cyflawni cenedlaethol Trais yn Erbyn Menywod a Merched.**	**11.1**	Proffiliau problemau gan ddefnyddio data a chudd-wybodaeth yr heddlu a ffynonellau gwybodaeth eraill i sicrhau bod hyd a lled y stelcio yn cael ei ddeall yn dda. Gallai hyn gynnwys rhannu gwybodaeth â gwasanaethau dioddefwyr lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill, ac ystadegau cenedlaethol a lleol.	Prif Gwnstabliaid	Ar hyn o bryd mae gennym broffil problem Trais yn Erbyn Menywod a Merched sy'n cynnwys stelcio, ond, mae'n cydnabod nad yw hyn ar hyn o bryd yn cynnwys y 'mathau o ymddygiad' oherwydd cyfyngiadau casglu data. Mae stelcio hefyd yn rhan o'n hasesiad strategol ar gyfer 2024-2025. Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn dibynnu ar yr offeryn sgrinio stelcio a fydd yn gweithredu tua Hydref 2025 cyn y gallwn ddarparu data dibynadwy i lywio proffil o'r broblem sy'n cynnwys y mathau o ymddygiad stelcio. Mae gan yr heddlu strwythur llywodraethu mewnol i fynd i'r afael â phroffiliau problemau sy'n cystadlu am flaenoriaeth. Bydd y Prif Gwnstabl yn cytuno ar broffiliau problemau yn y dyfodol ym mis Chwefror 2025. Bydd unrhyw broffil problem a gomisiynir yn cynnwys data'r heddlu a data partneriaeth.	Mae bellach gan Heddlu Dyfed-Powys broffil problem penodol i stelcio, dyddiedig Tachwedd 2025. Mae'r proffil problem yn cynnwys data a gwybodaeth partneriaeth, a data cenedlaethol/rhanbarthol.	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	

		11.2	Gwaith sicrwydd rheolaidd fel archwiliadau i ddeall ymateb yr heddlu yn well a gwneud gwelliannau lle bo'n briodol, gan gynnwys monitro'r defnydd o Orchmynion Diogelu rhag Stelcio, deilliannau ymchwiliadau, a safon ymchwiliadau.	Prif Gwnstabliaid	Bydd angen i Heddlu Dyfed-Powys sefydlu fframwaith archwilio stelcio newydd i fodloni'r argymhelliad hwn. Yn ddiweddar rydym wedi creu Ymgyrch Rhagorol sydd wedi'i sefydlu i wella ein hymateb a'n gwasanaeth i drais yn erbyn menywod a merched. Bydd canlyniadau'r archwiliadau'n cael eu hadrodd i'r grŵp hwn. Bydd grŵp gwella ar y cyd rhwng yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cael ei sefydlu i adolygu ymchwiliadau i stelcio. Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol â Jayne Thomas (Gwasanaeth Erlyn y Goron)	" Mae'r Uned Gwella Gwasanaethau wedi datblygu fframwaith archwilio a sicrwydd canolog i adolygu a gwerthuso perfformiad ac ymchwiliadau effeithiol yn ansoddol. Mae'r fframwaith hwn bellach yn cynnwys stelcio. Bob mis, bydd y Tîm Archwilio a Sicrwydd Canolog yn archwilio sampl ystadegol ddibynadwy o droseddau a ddewiswyd ar hap (gan gynnwys stelcio) a gwblhawyd fis ynghynt. Bydd canfyddiadau'r archwiliad yn bwydo i ddigwyddiad perfformiad sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr yr Uned Reoli Sylfaenol a'r Dirprwy Brif Gwnstabl ac Ymgyrch Rhagorol. Bydd y rhain yn bwydo i fwrdd perfformiad y Prif Gwnstabliaid. Ar 19 Mai, bydd ein Panel Amlasiantaeth i Wella ein Hymateb i Stelcio ar y Cyd (MAJSIP) cyntaf yn cyfarfod i adolygu ymchwiliadau er mwyn nodi dysgu, arferion gorau, a gofynion hyfforddi."	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	

		11.3	Ffyrdd o gael adborth yn rheolaidd gan ddioddefwyr, fel arolygon dioddefwyr.	Prif Gwnstabliaid	Bydd arolygon ynghylch stelcio yn cael eu cynnwys yn y tendr ORS newydd a fydd yn gweithredu ym mis Ebrill 2025. Bydd 380 o achosion stelcio yn cael eu darparu i ORS yn flynyddol. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) a'r Panel Goroeswyr Dioddefwyr rhanbarthol.	Ynghylch y diweddariadau blaenorol. Mae Heddlu Dyfed-Powys bellach wedi comisiynu Paladin i fod yn gymorth arbenigol i ddioddefwyr a goroeswyr. Gall Eiriolwyr Achos Stelcio Annibynnol nawr roi adborth ar ddioddefwyr i Heddlu Dyfed-Powys yn ystod cyfarfod y Rhaglen Ymyrraeth Stelcio, y Panel Amlasiantaeth i Wella ein Hymateb i Stelcio ar y Cyd, a thrwy'r adolygiad gwasanaeth comisiynu chwarterol.	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	
		11.4	Datganiadau rheoli'r heddlu sy'n adlewyrchu'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol o ran stelcio.	Prif Gwnstabliaid	Mae Datganiad Rheoli'r Heddlu cyfredol yn adlewyrchu'r galw am wasanaethau heddlu i fynd i'r afael â stelcio ac aflonyddu, ond bydd hyn yn cynnwys data mwy cywir mewn datganiadau rheoli'r heddlu yn y dyfodol pan gaiff offeryn sgrinio stelcio ei gyflwyno	Mae gan bob adran gynllun adrannol bellach, un elfen o'r cynllun yw'r ffurflen gofynion sefydliadol ac mae'r cwestiynau hyn yn llywio Datganiad Rheoli'r Heddlu yn uniongyrchol. Mae gan y portffolio troseddu ffurflen gofynion sefydliadol penodol ar gyfer stelcio ac felly bydd yn darparu dealltwriaeth glir o'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol o ran stelcio ac ymateb yr heddlu.	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	
12	**Erbyn 27 Mawrth 2025, cymryd camau i sicrhau bod adnabod, asesu, a rheoli risg yn effeithiol ym mhob achos o stelcio a thorri gorchmynion.**	**12.1**	Ystyried gweithredu'r offeryn sgrinio stelcio i gefnogi adnabod stelcio a'r risgiau sy'n gysylltiedig â stelcio.	Prif Gwnstabliaid	Mae Heddlu Dyfed-Powys yn y broses o weithredu'r offeryn sgrinio stelcio ynghyd ag offeryn asesu risg DARA. Mae grŵp gweithredu sefydledig ar gyfer hyn, sydd â'r nod o weithredu tua hydref 2025 (yn dibynnu ar newidiadau TG sydd allan o reolaeth Heddlu Dyfed-Powys gan ein bod yn rhan o grŵp Niche Minerva)	Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn gweithredu'r offeryn sgrinio stelcio ym mis Mehefin 2026. Mae oedi wedi digwydd oherwydd heriau o fewn NICHE, sydd y tu hwnt i reolaeth Heddlu Dyfed-Powys o ystyried yr amserlenni cydweithio presennol.	16 Mehefin 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	

		12.2	Cael polisïau a gweithdrefnau clir ar waith ar gyfer asesu a rheoli risg ym mhob achos. A lle bo'n briodol, ymgorffori offer asesu risg cydnabyddedig yn systemau'r heddlu fel ei bod yn hawdd i swyddogion gyrchu, defnyddio, a dogfennu eu hystyriaeth o risg a diogelu.	Prif Gwnstabliaid	Ar hyn o bryd mae proses glir ar gyfer asesu a rheoli risg. Bydd hyn yn cael ei ddiwygio ar ôl cyflwyno'r offeryn sgrinio stelcio.	Ar hyn o bryd mae proses glir ar gyfer asesu a rheoli risg. Bydd hyn yn cael ei ddiwygio ar ôl cyflwyno'r offeryn sgrinio stelcio.	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	
		12.3	Cydnabod (mewn polisïau, canllawiau, a hyfforddiant) y risg uwch sy'n gysylltiedig â thorri gorchmynion diogelu a mesurau diogelu.	Prif Gwnstabliaid	Mae'r Polisi Stelcio ac Aflonyddu wedi cael ei adolygu'n ddiweddar. Bydd yn rhaid ychwanegu argymhellion yr uwch-gŵyn at y polisi diwygiedig.	Mae torri gorchmynion a'r risg sy'n gysylltiedig â hyn wedi'i gynnwys yn ein hyfforddiant stelcio newydd a gyflwynir i swyddogion rheng flaen. Mae ein Polisi Stelcio wedi'i ddiwygio i sicrhau bod unrhyw achos o dorri gorchymyn yn cynyddu gradd risg (neu'n parhau fel lefel risg uchaf).	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	
		12.4	Gweithredu prosesau sgrinio a gwirio i gefnogi'r gwaith o adnabod, asesu, a rheoli achosion risg uchel yn gynnar. Efallai y bydd hyn yn golygu bod angen ystyried achosion o stelcio a thorri gorchymyn mewn cyfarfodydd rheoli dyddiol.	Prif Gwnstabliaid	Mae Cydlynydd Cyflawnwyr Stelcio Cam-drin Domestig yn adolygu pob achos o stelcio. Ar ben hynny, byddai pob achos risg uchel yn mynd at swyddogion cam-drin domestig i gynnal asesiad risg Asesiad Sgrinio ar gyfer Stelcio ac Aflonyddu pellach gyda'r dioddefwr. Bydd y broses hon yn cael ei hadolygu fel rhan o weithredu'r offeryn sgrinio stelcio. Bydd angen adolygu agenda cyfarfodydd rheoli dyddiol yr ardal blismona leol a'i hadnewyddu o bosibl er mwyn sicrhau bod troseddau stelcio a thorri gorchmynion risg uchel yn cael eu trafod yn ddyddiol	Datblygwyd matrics dyrannu troseddau Heddlu Dyfed-Powys yn dilyn adolygiad Heddlu Dyfed-Powys. Mae achosion risg uchel yn cael eu gyrru yn eu blaen a'u cadw gan yr Adran Ymchwilio i Droseddau (ymchwilwyr Rhaglen Broffesiynoli Ymchwilio Lefel 2). Mae achosion o dorri gorchmynion wedi'u cynnwys yn hyn o beth, gan osod disgwyliadau i dditectif ringyllod adolygu ymchwiliadau i sicrhau asesiad risg priodol a dyraniad dilynol. Mae Rhaglen Ymyrraeth Stelcio a phroses brysbennu sefydledig Heddlu Dyfed-Powys yn adolygu pob ymchwiliad	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	

						stelcio o'r ddau fis blaenorol, gan ganolbwyntio ar gynnydd cyflym, rheoli risg, atgyfeiriadau dioddefwyr ac ystyried achosion o dorri rheolau a gorchmynion sifil. Mae Heddlu Dyfed-Powys hefyd wedi gweithredu cyfarfod Panel Amlasiantaeth i Wella ein Hymateb i Stelcio ar y Cyd bob deufis i gynnwys Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr heddlu a Paladin gyda'r nod o adolygu ymchwiliadau i nodi dysgu, arferion gorau a gofynion hyfforddi.			
13	**Erbyn 27 Mawrth 2025, cymryd camau i sicrhau bod strategaethau, strwythurau, a phrosesau'r heddlu ar waith fel bod yr heddlu'n ystyried Gorchymyn Diogelu rhag Stelcio ym mhob achos stelcio, a gwneud cais am Orchymyn Diogelu rhag Stelcio lle bo'n berthnasol ac yn briodol i atal niwed a throseddu pellach.** **I gyflawni hyn, dylai prif gwnstabliaid adolygu a diwygio**	**13.1**	Hyfforddiant a chanllawiau lleol ar Orchmynion Diogelu rhag Stelcio, gan gynnwys hyfforddiant a chanllawiau ar gyfer goruchwylwyr.	Prif Gwnstabliaid	Mae Cydlynydd Cyflawnwyr Stelcio Cam-drin Domestig wedi darparu mewnbynnau i hyfforddiant staff yn ystod 2024 trwy sesiynau rhithwir. Bydd angen i Swyddog Gorchmynion Sifil Heddlu Dyfed-Powys weithio gyda'r Cydlynydd Cyflawnwyr Stelcio Cam-drin Domestig a'n gwasanaethau cyfreithiol i ddatblygu canllawiau i staff ar gymhwyso Gorchmynion Diogelu rhag Stelcio a all fod yn hygyrch i staff a bod yn rhan o hyfforddiant yn y dyfodol (cyrsiau Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu a chyrsiau rhingyllod newydd eu dyrchafu)	Mae cyfathrebu uniongyrchol â staff rheng flaen wedi'i greu i wella ymwybyddiaeth o Orchmynion Diogelu rhag Stelcio. Mae canllawiau "Sut i" ynghylch gwneud cais am Orchymyn Diogelu rhag Stelcio wedi'u creu i gynorthwyo staff rheng flaen. Yn ogystal, mae eiriolwyr stelcio yn yr Uned Reoli Sylfaenol wedi derbyn hyfforddiant penodol, sy'n eu galluogi i roi cyngor ac arweiniad i staff ynghylch defnyddio Gorchymyn Diogelu rhag Stelcio. Gwahoddir staff rheng flaen hefyd i fynychu cyfarfodydd Rhaglen Ymyrraeth Stelcio pan fydd achosion yn cael eu trafod ar gyfer addasrwydd Gorchymyn Diogelu rhag Stelcio.	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	

	polisi, canllawiau, a phrosesau cefnogol pan fo angen:	**13.2**	Mecanweithiau ar gyfer cefnogi swyddogion ymchwilio i nodi achosion lle byddai Gorchmynion Diogelu rhag Stelcio yn briodol a'u cynorthwyo gyda cheisiadau am Orchmynion Diogelu rhag Stelcio. Gallai hyn fod drwy dimau neu rolau pwrpasol a/neu drwy gyfarfodydd rheoli dyddiol sy'n ystyried risg a diogelu.	Prif Gwnstabliaid	Mae'r Cydlynydd Cyflawnwyr Stelcio Cam-drin Domestig yn adolygu pob achos o stelcio ac yn cysylltu â'r swyddogion gorchmynion sifil pan nodir achosion priodol. Mae angen gwerthuso a datblygu'r broses hon ynghyd â datblygu egwyddorion y Rhaglen Ymyrraeth Stelcio Amlasiantaeth.	Mae'r broses Rhaglen Ymyrraeth Stelcio wedi'i nodi fel y mecanwaith gorau ar gyfer sicrhau bod Gorchmynion Diogelu rhag Stelcio yn cael eu hystyried ar gyfer pob trosedd stelcio a gofnodwyd yn ystod cyfarfod wythnosol cyn Rhaglen Ymyrraeth Stelcio newydd. Bydd unrhyw drosedd stelcio pan fo angen Gorchymyn Diogelu rhag Stelcio yn cael ei drafod yng nghyfarfod misol y Rhaglen Ymyrraeth Stelcio lle bydd rhanddeiliaid allweddol yn bresennol a all gynorthwyo i'w gwblhau a gwneir argymhellion ynghylch gofynion cadarnhaol a gwahardd. Rydym hefyd yn treialu rôl 'Swyddog Ceisiadau' i gefnogi'r Cydlynydd Cyflawnwyr Stelcio Cam-drin Domestig a'r swyddogion achos a fydd yn ysgrifennu cais ac yn casglu tystiolaeth i gefnogi'r cais.	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	
14	**Erbyn 27 Mawrth 2025, cymryd camau i sicrhau bod dioddefwyr stelcio yn cael yr hawliau y mae ganddynt hawl iddynt o dan y Cod Dioddefwyr a bod ganddynt fynediad at**	**14.1**	Mae asesiadau o anghenion dioddefwyr bob amser yn cael eu cwblhau	Prif Gwnstabliaid	Mae gwaith datblygu wedi'i gymeradwyo i gynnwys asesiad gorfodol o anghenion dioddefwyr o fewn PRONTO ar gyfer pob dioddefwr. Bydd PRONTO yn gwneud penderfyniad ynghylch hawlogaeth yn seiliedig ar yr anghenion a nodwyd. Disgwylir i'r newid gael ei weithredu ddechrau 2025.	Mae datblygiad PRONTO wedi dechrau gweithredu ac mae hyn bellach wedi'i gwblhau.	26 Hydref 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	

	wasanaethau cymorth.	**14.2**	Mae gan eu heddlu brosesau priodol i sicrhau bod pob dioddefwr stelcio yn cael gwybod am eu hawliau o dan y Cod Dioddefwyr.	Prif Gwnstabliaid	Mae'r heddlu yn cyflwyno proses awtomataidd pan fydd yn ddiogel gwneud hynny lle bydd dioddefwyr pob trosedd yn cael neges e-bost neu neges destun yn cynnwys dolenni i'r holl ddeunydd perthnasol, gan gynnwys eu hawliau o dan y Cod Dioddefwyr a Phecyn Gwybodaeth i Ddioddefwyr yr heddlu. Pan nad yw'n ddiogel cysylltu â'r dioddefwr, bydd swyddogion yn rhannu'r wybodaeth berthnasol mewn dull diogel a byddant yn cadarnhau pan fydd y camau gweithredu wedi'u cwblhau. Disgwylir ei weithredu ddechrau 2025	Yn dal i aros am ddatblygiad PRONTO i ganiatáu inni fwrw ymlaen â'r awtomeiddio hwn.	26 Hydref 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	
		14.3	Mae gwybodaeth am y gwasanaethau cymorth stelcio cenedlaethol ac arbenigol sydd ar gael yn ardal eu heddlu ar gael yn hawdd i swyddogion a staff yr heddlu, dioddefwyr, a'r cyhoedd yn gyffredinol.	Prif Gwnstabliaid	Cyhoeddir gwybodaeth am wasanaethau cymorth arbenigol ar-lein (hafan ar-lein sengl) i'r cyhoedd. Bydd angen adolygu pecynnau gwybodaeth ar gyfer dioddefwyr i sicrhau bod manylion gwasanaethau cymorth arbenigol wedi'u dogfennu ynddynt a'u bod yn gyfredol.	Mae Canllaw Gwybodaeth i Ddioddefwyr Stelcio wedi'i greu, ac mae ei ddefnydd wedi'i hyrwyddo trwy gyfathrebiadau pwrpasol i staff rheng flaen. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi creu ap a chod QR/dolenni i swyddogion ei gyrchu trwy derfynellau data symudol er mwyn atgyfeirio'n hawdd mewn lleoliadau gyda dioddefwyr. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau cymorth arbenigol. Mae Paladin hefyd wedi creu fideo, a ddosbarthwyd i staff, yn cyfeirio at sut y gellir cael cymorth i ddioddefwyr a pha wasanaethau a gynigir. Pan fydd swyddogion diogelu yn cynnal asesiad Cam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddu, cynigir atgyfeiriad Paladin fel arfer safonol.	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	

		14.4	Caiff dioddefwyr sydd am gael cymorth eu cyfeirio at wasanaeth priodol mewn modd amserol.	Prif Gwnstabliaid	Bydd pob achos o stelcio risg uchel nawr yn cael ei gyfeirio at Paladin (gyda chydsyniad y dioddefwyr). Bydd pob dioddefwr stelcio arall yn cael eu cyfeirio at Gymorth i Ddioddefwyr er mwyn darparu cymorth priodol. Bydd y broses hon yn cael ei hadolygu wrth i'r cynllun peilot gyda Paladin gael ei werthuso yn 2025. Yn ystod y gwerthusiad, bydd yn canolbwyntio hefyd ar amseroldeb yr atgyfeiriadau.	Ar hyn o bryd, mae swyddogion cam-drin domestig yn atgyfeirio dioddefwyr a nodwyd fel rhai risg ganolig/uchel at Paladin os ydynt wedi cael cydsyniad y dioddefwr. Mae cydlynydd stelcio Heddlu Dyfed-Powys yn adolygu pob trosedd stelcio ac yn rhoi cymeradwyaeth ynghylch atgyfeiriad Paladin. Fel rhan o brosesau'r Rhaglen Ymyrraeth Stelcio ac fel rhan o'r sicrwydd ansawdd, adolygir amseroldeb atgyfeiriadau. Os oes bylchau, rhoddir y dasg i swyddogion diogelu gynnig atgyfeiriad i Paladin. Caiff niferoedd yr atgyfeiriadau eu monitro mewn cyfarfodydd gwasanaethau comisiynu chwarterol a gynhelir gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	
		14.5	Maent yn monitro nifer y dioddefwyr stelcio sy'n cael eu cyfeirio at wasanaethau cymorth arbenigol ac yn cymryd camau pan fydd niferoedd yr atgyfeiriadau yn isel.	Prif Gwnstabliaid	Mae'n ofynnol i swyddogion cam-drin domestig gyflwyno ffurflen Microsoft Teams pan fydd atgyfeiriad wedi'i wneud i Paladin. Gallwn hefyd gael data gan Paladin a chymharu hyn â nifer yr achosion risg uchel a gofnodwyd. Ar hyn o bryd, nid oes grŵp lle mae perfformiad stelcio yn cael ei adrodd iddo.	Mae cyfarfod misol â Paladin i drafod atgyfeiriadau gan Heddlu Dyfed-Powys. Cynhelir cyfarfod cynnydd chwarterol hefyd gyda Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i adolygu'r gwasanaeth a gomisiynwyd (sy'n cynnwys nifer yr atgyfeiriadau ac unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen os ydynt yn isel)	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	

16	**Erbyn 27 Mawrth 2025, cydweithio i adolygu trefniadau comisiynu a gwneud newidiadau cyn gynted â phosibl i sicrhau eu bod yn ymgorffori cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng yr heddlu a gwasanaethau sy'n darparu cymorth i ddioddefwyr stelcio.**	**16.1**		Prif Gwnstabliaid, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'u meiri cyfatebol	Ers 1 Medi 2024, mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi ariannu Paladin i ddarparu gwasanaeth eiriolaeth stelcio pwrpasol i Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r cynllun peilot hwn sy'n flwyddyn o hyd yn ceisio gwella'r ymateb yr heddlu i ddioddefwyr stelcio trwy gynnig eiriolaeth i ddioddefwyr stelcio risg uchel trwy'r system cyfiawnder troseddol, cynnig cymorth tymor byr/cyngor untro i ddioddefwyr risg isel a chanolig, ac ochr yn ochr â hyn codi ymwybyddiaeth o beryglon stelcio yn yr ardal ar draws asiantaethau lluosog trwy hyfforddiant a rhwydweithio. Er bod ein perthynas waith â Paladin yn ei dyddiau cynnar, mae yna sawl ymgysylltiad cadarnhaol eisoes wedi bod rhwng yr Eiriolwr Achos Stelcio Annibynnol a Heddlu Dyfed-Powys. Fel rhan o'r gwasanaeth, bydd Paladin yn cynnig cymorth ar gyfer 45 o achosion risg uchel; cymorth a chyngor untro ar gyfer 90 o achosion a 'chyngor proffesiynol' i asiantaethau eraill yn yr ardal ynghylch achosion. Y bwriad yw gwneud y comisiynu hwn yn gytundeb parhaol fel y gwelir gyda'n Gwasanaeth Cynghori Annibynnol ar Drais Domestig a'n Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol. Bydd hyn o gymorth sylweddol i ddatblygu ein gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr stelcio.	Bydd y trefniant gwaith a'r contract rhwng Heddlu Dyfed-Powys a Paladin yn cael eu hadolygu cyn mis Medi 2025. Bydd gwerthusiad llawn yn cael ei gwblhau er mwyn nodi anghenion a meysydd pellach i'w gwella er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth ar gyfer ddioddefwyr sydd wedi goroesi stelcio o'r radd flaenaf. Bydd unrhyw welliannau yn rhan o unrhyw ofynion comisiynu yn y dyfodol.	26 Mawrth 2026	Busnes fel arfer	
17	**27 Mawrth 2025, sicrhau bod cynnwys Arferion Proffesiynol Awdurdodedig ymchwiliadau newydd y Coleg Plismona ar ddyrannu**	**17.1**	Dylai polisïau'r heddlu gefnogi dyrannu achosion stelcio i swyddogion sydd â'r sgiliau a'r profiad cywir, gan ystyried y risg a'r cymhlethdod posibl sy'n gysylltiedig ag achosion	Prif Gwnstabliaid	Mae'r polisi digwyddiadau troseddau a dyrannu presennol yn glir ynghylch dyrannu troseddau stelcio a nodwyd fel rhai risg uchel i ymchwilydd sydd wedi cyflawni Rhaglen Broffesiynol Ymchwilio L2, neu sy'n gweithio tuag ati.	Wedi'i gwblhau	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	

	achosion yn cael ei adlewyrchu yn y polisïau perthnasol sy'n ymwneud â dyrannu achosion o stelcio a thorri gorchmynion i'w hymchwilio.		o stelcio a thorri gorchymyn.					
18	**Erbyn 27 Mawrth 2025, cymryd camau i wella ansawdd ymchwiliadau stelcio drwy fabwysiadu dull sy'n rhoi'r dioddefwr wrth wraidd yr achos, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn dan amheuaeth, ac sy'n cael ei arwain gan y cyd-destun.**	**18.1**	Mae gan eu gweithlu'r capasiti a'r gallu i gynnal ymchwiliadau stelcio effeithiol a gallant gymhwyso technegau ymchwilio newydd ac arloesol i ddilyn llwybrau ymholi digidol.	Prif Gwnstabliaid	Bydd yr heddlu'n monitro ein capasiti a'n galluedd i ymateb yn effeithiol i droseddau stelcio ar ôl cwblhau proffil o'r broblem. Mae troseddau stelcio wedi'u dogfennu yn ein Datganiad Rheoli'r Heddlu a bydd hyn yn parhau i gael ei ddefnyddio i fonitro capasiti a galluedd. Mae Uned Ymchwilio Digidol yr heddlu yn cynnal ymchwil i offer a thechnegau newydd a fydd yn cefnogi ymchwiliadau stelcio a rhoddir gwybod am unrhyw dechnegau newydd i staff trwy hyfforddiant.	Mae'r Uned Ymchwilio Digidol wedi darparu dogfen gyngor a chanllawiau ar sut i ddelio ag ymchwiliadau stelcio ar-lein. Mae'r ddogfen hon yn mynd i'r afael â'r diffiniad o seiber-stelcio, yn darparu tactegau atal dioddefwyr, cyngor i ddioddefwyr ar beth i'w wneud pan fyddant yn ddioddefwr y math hwn o drosedd, a thactegau ymchwilio ar gyfer swyddogion rheng flaen a swyddogion ymchwilio. Yn ogystal â hyn, cynhaliodd yr Uned Ymchwilio Digidol ymchwil ar y galluoedd caledwedd/meddalwedd mwyaf cyfoes i nodi dyfeisiau tracio System Leoli Fyd-eang (GPS) y mae unigolion dan amheuaeth yn eu defnyddio'n gyffredin i olrhain eu dioddefwyr. Mae enghreifftiau o ddyfeisiau tracio GPS o'r fath yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, AirTag a theils. Mae gan yr heddlu bellach y gallu trwy offer darganfod fforensig i gynorthwyo gydag ymchwiliadau i stelcio.	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	

		18.2	Dilynir pob llwybr ymholi resymol, gyda chymorth goruchwyliaeth dda.	Prif Gwnstabliaid	Ar hyn o bryd mae Heddlu Dyfed-Powys yn cynnal adolygiad o'r heddlu lle mae 'ymchwiliadau' yn faes penodol o adolygiad. Bydd canfyddiadau'r uwch-gŵyn yn rhan o'r ystyriaethau i sicrhau ein bod yn bodloni'r argymhelliad hwn. Bydd yn ofynnol i Heddlu Dyfed-Powys sefydlu fframwaith archwilio stelcio newydd i gefnogi cyflawni'r argymhelliad hwn.	Mae amcanion adolygiad yr heddlu o ymchwiliadau yn cynnwys:- - Darparu gwasanaeth rhagorol i ddioddefwyr - Cyflwyno polisi ymchwilio i droseddau effeithiol a phrosesau cysylltiedig - Darparu model goruchwylio ac adnoddau effeithiol ac effeithlon sy'n bodloni gofynion presennol a gofynion y dyfodol Mae cyfundrefn archwilio troseddau misol wedi'i gweithredu gan yr uned gwella gwasanaethau a fydd yn cynnwys troseddau stelcio i sicrhau bod ymchwiliadau'n cael eu cofnodi'n gywir; eu hymchwilio'n gyflym; bod llwybrau ymholi rhesymol yn cael eu dilyn; bod dioddefwyr yn cael eu diweddaru yn unol â'r Cod Dioddefwyr a chan yr adnodd cywir; eu goruchwylio'n effeithiol a bod y canlyniad cywir yn cael ei gyflawni i'r dioddefwr. Bydd canlyniadau'r archwiliad hwn yn cael eu hadrodd mewn cyfarfodydd perfformiad ar lefel Prif Swyddog a chyfarfodydd perfformiad sir	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	

		18.3	Defnyddir pwerau arestio a chwilio i gasglu tystiolaeth gan unigolion dan amheuaeth a thystiolaeth amdanynt.	Prif Gwnstabliaid	Bydd angen adolygu agenda cyfarfodydd rheoli dyddiol yr ardaloedd plismona lleol i sicrhau bod troseddau stelcio yn cael eu trafod a bod arestio/chwilio yn cael eu hystyried ar gyfer pob digwyddiad. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cael cyfarfodydd perfformiad misol o fewn pob ardal blismona leol lle cyflwynir a chraffir ar ddata ynghylch arestio/chwilio. Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn sicrhau bod data stelcio yn cael eu cynnwys o fewn y broses lywodraethu hon ac yn cael eu monitro'n effeithiol.	Adroddir ar droseddwyr nad ydynt wedi'u cyhuddo mewn cyfarfodydd rheoli dyddiol ym mhob sir i sicrhau craffu ac atebolrwydd a bod adnoddau'n cael eu defnyddio i leoli ac arestio troseddwyr risg uchel. Mae data perfformiad stelcio wedi'u cynnwys yn sleidiau perfformiad misol siroedd ynghyd â data ymatebion arolwg dioddefwyr. Cwestiynau Perfformiad Allweddol: A oedd yr asesiad risg yn briodol? A yw'r Hysbysiad er Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Cam-drin Domestig, Stelcio, ac Aflonyddu wedi'i gwblhau (gan gynnwys y Cwestiynau Stelcio ychwanegol a sbardunwyd drwy ateb yn gadarnhaol i Gwestiwn 8)? Os nad yw'n stelcio'n gysylltiedig â cham-drin domestig, a oes Hysbysiad er Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Stelcio wedi'i gyflwyno? A yw'r asesiadau o anghenion dioddefwyr yn ystyried anghenion a gofynion y dioddefwr yn briodol? A yw pob trosedd wedi cael ei gofnodi'n briodol? A oedd yr ymateb ymchwiliol cychwynnol yn briodol; er enghraifft, dyrannu adnoddau'n brydlon, actifadu camera corff yn amserol, arestiad cynnar ac ati A yw'r dioddefwr yn agored i niwed ac a yw'r cymorth priodol wedi'i	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	

						ddarparu? Pa mor effeithiol oedd cynllun yr ymchwiliad a'r oruchwyliaeth? A yw'r cyfnod yn y ddalfa wedi'i optimeiddio? A yw'r cynllun diogelu yn briodol? A gafwyd y canlyniad cywir?			
		18.4	Mae tystiolaeth o'r effaith ar ddioddefwyr i'w chael mewn datganiadau tystion, felly gellir ei defnyddio i lywio penderfyniadau o ran cyhuddo ac i wella'r tebygolrwydd o ganlyniadau ymchwiliad llwyddiannus.	Prif Gwnstabliaid	Bydd angen i hyfforddiant Dysgu a Datblygu a hyfforddiant ymchwilio gynnwys yr effaith y mae stelcio yn ei chael ar ddioddefwyr yn eu deunydd hyfforddi yn y dyfodol.	Mae'r effaith ar ddioddefwyr stelcio wedi'i chynnwys yn yr hyfforddiant ynghylch cymryd datganiadau gan Ddysgu a Datblygu. Mae hyn yn cynnwys ei gynnwys yn Natganiad Personol y Dioddefwr.	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	
20	**Erbyn 27 Mawrth 2025, cymryd camau i wella sut mae eu heddlu yn adnabod ac yn ymateb yn effeithiol i**	**20.1**	Mae graddfa a natur ymddygiadau stelcio ar-lein yn llywio eu dealltwriaeth strategol o stelcio, a'r ymateb iddo.	Prif Gwnstabliaid	Bydd y cais am broffil o'r broblem ar gyfer stelcio yn cynnwys yr elfennau ar-lein o fewn y cylch gorchwyl er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth ynddo yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau strategol yn y dyfodol. Cytunir ar hyn ym mis Chwefror 2025 yng	Mae proffil problem stelcio wedi'i greu, yn unol â'r diweddariad uchod. Mae hyn yn cynnwys ymddygiadau stelcio ar-lein.	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	

	elfennau ar-lein stelcio.				nghyfarfod tasgau strategol yr heddlu,				
		20.2	Mae enghreifftiau o stelcio ar-lein wedi'u cynnwys mewn deunydd hyfforddi a chanllawiau a gynhyrchir yn lleol am stelcio.	Prif Gwnstabliaid	Mae Uned Ymchwilio Digidol Heddlu Dyfed-Powys yn darparu hyfforddiant i swyddogion heddlu newydd (Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu) a chyrsiau Adran Ymchwilio i Droseddau ar ymchwiliadau digidol. Bydd cyrsiau yn y dyfodol yn cael eu diwygio i gynnwys stelcio ar-lein yn y ddarpariaeth.	Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cyhoeddi canllawiau ar ei wefan fewnrwyd i ymatebwyr cyntaf ac ymchwilwyr ynghylch stelcio ac aflonyddu. O fewn y canllawiau mae adran ar stelcio ar-lein gan gynnwys cyfleoedd ymchwilio ar gyfer gwahanol safleoedd cyfryngau cymdeithasol. Cafodd stelcio ar-lein ynghyd ag astudiaethau achos eu cynnwys hefyd yn yr hyfforddiant i bob swyddog rheng flaen rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2025. Yn ogystal, mae llwybrau atgyfeirio at gam-drin ar-lein wedi'u cynnwys mewn cyfathrebiadau pwrpasol i staff rheng flaen.	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	

		20.3	Mae cyngor diogelwch ar-lein clir ar gael i swyddogion a staff, gan ddefnyddio Arferion Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona ynghylch stelcio neu aflonyddu pan gaiff eu datblygu.	Prif Gwnstabliaid	Mae Heddlu Dyfed-Powys yn aros am Arferion Proffesiynol Awdurdodedig wedi'u ddiweddaru gan y Coleg Plismona i'w cyhoeddi ar wefan fewnrwyd yr heddlu fel canllaw i swyddogion ynghylch sut i ddelio'n briodol â stelcio ar-lein.	Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cyhoeddi canllawiau ar ei wefan fewnrwyd i ymatebwyr cyntaf ac ymchwilwyr ynghylch stelcio ac aflonyddu. O fewn y canllawiau mae adran ar stelcio ar-lein gan gynnwys cyfleoedd ymchwilio ar gyfer gwahanol safleoedd cyfryngau cymdeithasol. Bydd y Coleg Plismona yn cael ei wirio'n rheolaidd a phan fydd yr Arferion Proffesiynol Awdurdodedig ar stelcio ar-lein wedi'u diweddaru bydd y canllawiau'n cael eu cyhoeddi. Mae arweinydd yr Uned Ymchwilio Digidol wedi cynhyrchu dogfen ganllaw ar gyfer swyddogion a staff sy'n canolbwyntio ar ymchwilio a chyngor y gellir ei gynnig i ddioddefwyr stelcio ar-lein. Mae hyn ar dudalen yr Uned Ymchwilio Digidol ar y fewnrwyd. Yn ogystal, mae cyngor a gyhoeddwyd gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu drwy Bencadlys Heddlu De Cymru wedi'i rannu â'r Uned Ymchwilio Digidol a'r adran Dysgu a Datblygu.	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	

		20.4	Mae offer, technolegau, a gwasanaethau cymorth priodol i ddiogelu dioddefwyr yn ddigidol yn cael eu caffael ac mae swyddogion a staff yn defnyddio'r adnoddau hyn pan fo'n briodol.	Prif Gwnstabliaid	Mae gan wefan gyhoeddus Heddlu Dyfed-Powys ganllawiau i aelodau'r cyhoedd ynghylch stelcio ac aflonyddu. Mae hyn yn cynnwys cyngor ynghylch diogelu rhag stelcio ac aflonyddu ar-lein, gan gynnwys rheoli cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, dyfeisiau digidol, dyfeisiau IOT a dyfeisiau tracio Bluetooth. Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn adolygu ein llyfrynnau gwybodaeth/cyfeirio ar gyfer dioddefwyr i sicrhau bod dioddefwyr troseddau stelcio ar-lein yn ymwybodol o wasanaethau cymorth megis: Y llinell gymorth seiber, Paladin — Gwasanaeth Eirioli Stelcio Cenedlaethol ac ati. Ymchwil barhaus i apiau ac offer fel 'Airguard' i ganfod dyfeisiau Bluetooth, AirTag, a mathau eraill o ddyfeisiau y gellir eu defnyddio i stelcio. Meincnodi yn erbyn heddluoedd eraill, gan ddefnyddio fforwm cynghori cenedlaethol ymchwilwyr digidol er mwyn deall beth mae heddluoedd eraill yn ei wneud. Mae ymchwil yn parhau ynghylch offer technolegol. Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn ceisio sicrhau ein bod yn defnyddio technoleg i ddiogelu dioddefwyr a chynorthwyo i gyflawni canlyniadau cyfiawnder troseddol ar gyfer dioddefwyr.	Mae arweinydd yr Uned Ymchwilio Digidol wedi cynhyrchu dogfen o'r enw "Ymchwil ac Argymhellion i Offer i wella Mesurau Gwrth-wyliadwriaeth Technegol yr Heddlu mewn perthynas ag ymchwiliadau Stelcio" sydd wedi'i rhannu ag uwch-swyddogion. Mae gan yr heddlu bellach y gallu trwy offer darganfod fforensig i gynorthwyo gydag ymchwiliadau i stelcio.	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	
22	**Erbyn 27 Medi 2025, defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd gan arweinydd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu o dan argymhelliad 21, i ystyried a ellir defnyddio**	**22.1**		Prif Gwnstabliaid	Mae Heddlu Dyfed-Powys yn aros am ddiweddariadau ar Argymhelliad 21 ar gyfer Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu. Serch hynny, mae gan Heddlu Dyfed-Powys gydlynydd stelcio ar hyn o bryd (Cydlynydd Cyflawnwyr Stelcio Cam-drin Domestig) sy'n cael ei dreialu. Yn dilyn cyhoeddi Argymhelliad 21, bydd y rôl hon yn cael ei hadolygu i	Mae Heddlu Dyfed-Powys yn aros am ddiweddariadau ar Argymhelliad 21 ar gyfer Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu. Serch hynny, mae gan Heddlu Dyfed-Powys gydlynydd stelcio ar hyn o bryd (Cydlynydd Cyflawnwyr Stelcio Cam-drin Domestig). Mae'r rôl	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	

	swyddogion a staff stelcio ymroddedig, neu arbenigwyr pwnc eraill, a sut y gellir eu defnyddio i ychwanegu gwerth a chefnogi ymateb yr heddlu i stelcio.				sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r argymhellion a wnaed.	hon wedi'i hariannu'n barhaol. Yn dilyn cyhoeddi Argymhelliad 21, bydd y rôl hon yn cael ei hadolygu i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r argymhellion a wnaed.			
23	Erbyn 27 Mawrth 2025, gweithredu mecanwaith ar gyfer sgrinio troseddau'n gynnar er mwyn gwella'r broses o adnabod, cofnodi, a rheoli pob achos o stelcio.	**23.1**	Dylai heddluoedd ystyried sgrinio troseddau tebyg i stelcio neu lle gall ymddygiadau stelcio fod yn bresennol fel rhan o batrwm ymddygiad, fel aflonyddu, cyfathrebiadau maleisus, a thorri gorchmynion.	Prif Gwnstabliaid	Bydd yr offeryn sgrinio stelcio newydd yn cael ei weithredu o fewn Heddlu Dyfed-Powys erbyn mis Mehefin 2025 (yn dibynnu ar newidiadau TG cenedlaethol). Bydd hyn o gymorth i sicrhau bod troseddau ymddygiad a thorri gorchmynion yn cael eu hadolygu ac os oes stelcio yn bresennol yna bydd hyn yn cael ei nodi.	Mae offeryn sgrinio stelcio Heddlu Dyfed-Powys i fod i gael ei weithredu ym mis Mehefin 2026 a fydd yn gwneud gwelliannau enfawr yn ein gallu i sgrinio troseddau'n gynnar.	16 Mehefin 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	
25	**Erbyn 27 Mawrth 2025, archwilio cyfleoedd i wella sut mae eu heddlu yn gweithio gyda phartneriaid i gyfrannu at ymateb amlasiantaeth i stelcio. Dylai hyn gynnwys ystyried:**	**25.1**	Sut mae'r heddlu'n gweithio mewn partneriaeth â gofal iechyd, Gwasanaeth Erlyn y Goron, gwasanaethau prawf, a phartneriaid cyfiawnder troseddol eraill i reoli unigolion sy'n stelcio ac ymdrin â'u hymddygiad.	Prif Gwnstabliaid, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'u meiri cyfatebol	Mae Cydlynydd Cyflawnwyr Stelcio Cam-drin Domestig wedi sefydlu clinigau stelcio misol i drafod troseddwyr risg uchel â seicoleg fforensig y DU. Bydd angen i'r bartneriaeth hon ehangu yn dilyn egwyddorion Rhaglen Ymyrraeth Stelcio Amlasiantaeth.	Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi gweithredu'r Rhaglen Ymyrraeth Stelcio a'r Panel Amlasiantaeth i Wella ein Hymateb i Stelcio ar y Cyd (MAJSIP), sydd ill dau yn gyfarfodydd amlasiantaeth, gan sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar ymddygiad troseddwyr.	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	
		25.2	A ddylent gydweithio â heddluoedd eraill i gyfrannu'n effeithiol ac effeithlon at bartneriaethau amlasiantaeth ar stelcio, a sut y dylid gwneud hyn.	Prif Gwnstabliaid, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'u meiri cyfatebol	Yn ddiweddar, mae'r heddlu wedi cydweithio â Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru fel 'Cydweithfa Heddlu Cymru' i gomisiynu gwasanaethau cymorth trais rhywiol arbenigol ar y cyd. Gallai hyn fod yn ystyriaeth ar gyfer comisiynu yn y dyfodol. Cynhelir cyfarfod arweinwyr Diogelu Unigolion Bregus Cymru gyfan lle bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei drafod ar gyfer cyfleoedd cydweithredol.	Bydd y cydweithio hwn yn parhau.	26 Mawrth 2026	Busnes fel arfer	

		25.3	Sut mae Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd yn cael eu defnyddio i reoli troseddwyr stelcio yn effeithiol.	Prif Gwnstabliaid, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'u meiri cyfatebol	Ar hyn o bryd rydym yn adolygu ein proses rheoli gorchmynion sifil ac yn cydnabod rôl Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd wrth reoli troseddwyr stelcio sy'n peri'r risg fwyaf. Rydym yn ceisio datblygu proses lle bydd pob troseddwr y gwneir cais am Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio dros dro neu lawn ar ei gyfer hefyd yn cael ei gyfeirio at Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd fel unigolion a allai fod yn beryglus a'i reoli o fewn yr Uned Rheoli Troseddwyr.	Cytunwyd y bydd y broses Rhaglen Ymyrraeth Stelcio yn cael ei defnyddio fel fforwm ar gyfer atgyfeirio ymlaen i Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd os yw'n briodol. Mae ditectif ringyll o'r Uned Rheoli Troseddwyr Strategol (sy'n gyfrifol am Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd) yn mynychu cyfarfodydd misol y Rhaglen Ymyrraeth Stelcio a dyma fydd y porth ar gyfer enwebiadau.	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	
27	**Erbyn 22 Tachwedd 2024 (56 diwrnod o'r cyhoeddiad), ysgrifennu at HMICFRS, Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, a'r Coleg Plismona yn nodi eu hymateb i'r argymhellion a wnaed iddynt. Dylai prif gwnstabliaid gyfeirio eu hymateb at Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a ddylai ddarparu ymateb ar y cyd ar ran yr holl heddluoedd. Dylai comisiynwyr yr heddlu a'u maer cyfatebol gyfeirio eu hymateb at Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a**	**27.1**		Pob corff sy'n destun argymhellion	Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi darparu eu hymateb i Bwynt Cyswllt Unigol Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu erbyn dydd Gwener 22 Tachwedd, 2024.	Wedi'i gwblhau	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	

	Throseddu, a ddylai ddarparu ymateb ar y cyd ar eu rhan.							
28	**Erbyn 22 Tachwedd 2025 (56 diwrnod o'r cyhoeddiad), cyhoeddi cynllun gweithredu ar wefan eu heddlu sy'n egluro beth fydd eu heddlu yn ei wneud mewn ymateb i bob un o'r argymhellion a wnaed iddynt ac anfon dolen at Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu i ble gellir dod o hyd i'r cynllun gweithredu hwn.** **Erbyn 27 Mawrth 2025 (chwe mis o'r cyhoeddiad) darparu diweddariad i Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu yn disgrifio'r cynnydd y maent wedi'i wneud yn erbyn eu cynlluniau gweithredu.**	**28.1**		Prif Gwnstabliaid	Bydd ymateb yr heddlu yn cael ei lanlwytho ar wefan Heddlu Dyfed-Powys erbyn hanner dydd, ddydd Gwener 22 Tachwedd 2024.	Cyhoeddodd yr heddlu'r cynllun gweithredu cyn 22 Tachwedd ar ein gwefan. Bydd y cynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru yn cael ei anfon at Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu yn egluro'r cynnydd a wnaed erbyn 27 Mawrth 2025.	26 Mawrth 2026	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	